ROBERTS, MICHAEL HILARY ADAIR (1927-1983), gwleidydd Ceidwadol

Enw: Michael Hilary Adair Roberts
Dyddiad geni: 1927
Dyddiad marw: 1983
Priod: Eileen Jean Roberts (née Billing)
Rhiant: T.A. Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidydd Ceidwadol
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: John Graham Jones

Ganwyd ef yn Aberystwyth ym mis Mai 1927, yn fab i'r Parch T. A. Roberts, ficer Anglicanaidd a ddaeth yn Rheithor Castell-nedd yn ddiweddarach. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Castell-nedd a Choleg Prifysgol Deheudir Cymru, Caerdydd. Enillodd ei fywoliaeth yn swyddog addysg yn yr Awyrlu Brenhinol ac yna yn athro ysgol. Roberts oedd prifathro cyntaf Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Caerdydd, 1963-70. Bu hefyd yn hyfforddwr i Undeb Rygbi Cymru, aelod o'r Bow Group a llywydd cangen Caerdydd o Undeb Cenedlaethol yr Athrawon. Bu hefyd yn ymgynghorydd i Undeb Genedlaethol yr Athrawon, 1970-79, ac yn gynt yn ei yrfa gwasanaethodd ar Bwyllgor Ymgynghorol Ieuenctid Cenedlaethol.

Safodd Roberts yn ymgeisydd Ceidwadol yn is-etholiad Aberdâr ym 1954 yn erbyn Arthur Probert, ac yn etholaeth De-ddwyrain Caerdydd yn etholiadau cyffredinol 1955 a 1959 yn erbyn James Callaghan. Roberts oedd AS Ceidwadol Gogledd Caerdydd, 1970-Chwefror 1974, ac, yn dilyn newidiadau sylweddol yn ffiniau'r etholaethau, bu'n AS Gogledd-orllewin Caerdydd o Chwefror 1974 hyd at ei farwolaeth. Penodwyd ef yn gyd-is-gadeirydd pwyllgor addysg yr Aelodau Seneddol Ceidwadol ym 1974, a dewiswyd ef yn chwip yr wrthblaid yn yr un flwyddyn. Ym 1979 penodwyd ef yn Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, gyda chyfrifoldeb dros addysg o fewn y Dywysogaeth. Roedd yn llywydd yr Undebwyr Llafur Ceidwadol, 1977-79, ac etholwyd ef yn llywydd Cymdeithas y Clybiau Ceidwadol ym 1980. Ym 1974 daeth Roberts yn gyfarwyddwr ymgynghorol i John Addey Associates, cwmni cysylltiadau cyhoeddus, ac ym 1975 penodwyd ef yn ymgynghorydd diwydiannol i Minton, Treharne and Davies, dadansoddwyr ac ymgynghorwyr cemegol yng Nghaerdydd.

Priododd Mrs Eileen Jean Evans, merch C. H. Billing. Bu iddynt ddau fab a merch. Bu'r ferch farw o flaen ei thad. Roeddent yn byw yn Fferm Ashgrove, yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Bu farw Roberts ar 10 Chwefror 1983 ar ôl iddo lewygu wrth y Blwch Dogfennau yn y T Cyffredin tra oedd yn cyflwyno ateb yn ystod dadl ar faterion Cymreig. Roedd wedi dioddef o broblemau iechyd am ddwy flynedd cyn hynny ac yr oedd yn farw pan gyrhaeddodd ysbyty San Steffan. Claddwyd ei gorff ym mynwent Pantmawr.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997 (Talybont 1999)

Welsh Hustings - 1885-2004 (Rhydaman 2005)

Dod's Parliamentary Companion

The Times, 12 Chwefror 1983

Western Mail, 11 Chwefror 1983

Darllen Pellach

Archifau LlGC: Mr Michael H. A. Roberts, B.A., J.P.

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6833909

Dyddiad cyhoeddi: 2008-07-30

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu